Gwasanaeth **Ynni**
**Energy** Service

# Adrodd ar Sero Net

## Allyriadau Carbon 2024 Sector Cyhoeddus Cymru

**Mawrth 2025**

**Cynhyrchwyd gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Confidential

| | |
|---|---|
| **Dogfen** | Adrodd ar Sero Net<br>Allyriadau Carbon 2024 Sector Cyhoeddus Cymru |
| **Awduron** | Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru<br>Y Tîm Adrodd ar Sero Net<br>netzeroreporting@energyservice.wales |
| **Cyhoeddwyd** | Mawrth 2025 |

Dychwelyd i'r tabl cynnwys

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn cynnig crynodeb o allyriadau carbon Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2024 ar y lefel genedlaethol ac is-sector. I'r mwyafrif o sefydliadau, mae hyn yn golygu data sy'n gysylltiedig â blwyddyn ariannol 2023-2024. I rai colegau a phrifysgolion, o ystyried materion cysondeb gyda'r broses adrodd, mae'r data yn gysylltiedig â blwyddyn academaidd 2022-2023. Mae'r datganiadau allyriadau cyhoeddedig yn seiliedig ar ddata a gyflwynwyd gan 79 o gyrff cyhoeddus (rhwng Ebrill a Hydref 2024). Mae hyn yn cynnwys 8 o gyrff cyhoeddus yn fwy na'r hyn a adroddwyd yn y rownd flaenorol (2023).


Hefyd, mae'r ddogfen yn darparu tueddiadau allyriadau carbon o un flwyddyn i'r llall yn erbyn y pedwar datganiad blynyddol blaenorol ochr yn ochr â data 2024 h.y. pum datganiad blynyddol rhwng 2020 a 2024.

Cyflwynir tueddiadau o un flwyddyn i'r llall ar draws yr is-sectorau allweddol hefyd. Dylid nodi bod ffin o ffynonellau allyriadau sy'n newid, a nifer gynyddol o gyrff adrodd yn effeithio ar y gallu i gymharu ar draws bob un o'r 5 mlynedd, yn enwedig ar lefel "Cymru gyfan".

Bydd dangosfwrdd digidol lle gellir archwilio allyriadau a adroddwyd a'r data cysylltiedig, ochr yn ochr â datganiadau allyriadau ar gyfer cyrff sector cyhoeddus unigol yng Nghymru.

Dychwelyd i'r tabl cynnwys


**Amcangyfrifir mai 3,540 $ktCO_2e$ yw cyfanswm allyriadau 2024 ar gyfer holl Gyrff Sector Cyhoeddus Cymru, fel y dangosir isod. *Awdurdodau Lleol* sy'n cyfrannu'r mwyaf o allyriadau at gyfanswm yr ôl troed (43%). *GIG Cymru* wnaeth gyfrannu'r cyfanswm uchaf nesaf (33%). Dilynir y rhain gan y grŵp hynod amrywiol o *Gyrff Sector Cyhoeddus Eraill* (11%). *Prifysgolion a Cholegau*, *Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub* ac *Awdurdodau Parciau Cenedlaethol* sy'n cyfrannu'r 13% sy'n weddill. Dangosir gwerthoedd $ktCO_2e$ cyfatebol isod.**





Confidential

Dychwelyd i'r tabl cynnwys

**Amcangyfrifir bod y rhan fwyaf o allyriadau'r sector cyhoeddus cyfan yn deillio o'r *Gadwyn Gyflenwi.* Mae hyn yn cyfateb i 2,559 kt$CO_2$e a 72% o gyfanswm yr allyriadau. Amcangyfrifir bod allyriadau cysylltiedig ag *Adeiladau* yn cyfrannu at 541 kt$CO_2$e a 15% o'r cyfanswm. Amcangyfrifir bod allyriadau *Trafnidiaeth* yn cyfrannu 413 kt$CO_2$e a 12% o'r cyfanswm. Amcangyfrifir bod allyriadau *Gwastraff* yn cyfrannu at 18 kt$CO_2$e a ~1% o'r cyfanswm.**



**Gwelwyd cynnydd o 13% i gyfanswm yr allyriadau rhwng 2023 a 2024. Ers y flwyddyn adrodd gyntaf, mae allyriadau wedi cynyddu 58%. Ysgogir y newid cyfres llawn amser i gyfanswm ôl troed y sector cyhoeddus gan y cynnydd i sefydliadau adrodd i raddau helaeth. 79 oedd nifer y sefydliadau adrodd yn 2024. Mae hyn yn gynnydd o 32 o sefydliadau yn erbyn y flwyddyn adrodd gyntaf yn 2020.**



## Ysgogiadau allweddol newid rhwng 2023 a 2024

Ar lefel y sector cyhoeddus cyfan, cynyddodd allyriadau 13% yn gyffredinol ar draws yr holl gategorïau allyriadau (cynnydd o 420 kt$CO_2$e). Mae'r newid hwn yn cyfuno cynnydd mewn rhai categorïau allyriadau, fel cadwyn gyflenwi a thrafnidiaeth, a gostyngiadau mewn categorïau allyriadau eraill, fel adeiladau a gwastraff. Prif ysgogiad y newid cyffredinol yw cynnydd o 422 kt$CO_2$e i allyriadau a amcangyfrifir yn gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi. Mae'r cynnydd hwn yn cuddio gostyngiadau i allyriadau sy'n gysylltiedig ag adeiladau a gwastraff (-7 kt$CO_2$e a -20 kt$CO_2$e yn eu trefn).

Mae'r rhesymau sylfaenol am newidiadau a adroddwyd yn aml-ffased ond wedi'u rhannu rhwng dau gategori yn gyffredinol. Newidiadau yn gysylltiedig â'r dulliau cyfrifyddu neu newidiadau i alw ar y lefel is-sector a sefydliadol yw'r rhain.

Ysgogir y newid i allyriadau cadwyn gyflenwi a adroddwyd gan gynnydd o 13% i weithgarwch cadwyn gyflenwi (gwariant). Gellir hefyd priodoli'r cynnydd i ddwysedd allyriadau wedi'i ddiweddaru y ffactorau procsi. ±24% oedd y newid cyfartalog i unrhyw ffactor dwysedd allyriadau penodol rhwng eleni a'r llynedd. Ar gyfer rhai categorïau perthnasol (yn berthnasol i gyrff cyhoeddus), mae'r newid i ddwysedd allyriadau yn llawer mwy. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yma.

Yr unig ffordd y bydd modd nodi newid gwirioneddol o ran allyriadau cadwyn gyflenwi fydd drwy ddefnyddio data penodol i gyflenwyr (ac nid dulliau seiliedig ar brocsi a ddefnyddir ar hyn o bryd). Gellir dweud yr un fath am amcangyfrifon gweithio gartref a chymudo haen 1 ar hyn o bryd. Nid yw'r dulliau (a chanlyniadau) amcangyfrif seiliedig ar brocsis hyn yn addas ar gyfer olrhain allyriadau o un flwyddyn i'r nesaf ac felly dod i gasgliadau ynghylch ysgogiadau newid.

Mae amcangyfrifon y rhan fwyaf o amcangyfrifon cysylltiedig ag adeiladau yn cael eu gwneud mewn ffordd sy'n eu gwneud yn fwy addas ar gyfer olrhain o un flwyddyn i'r llall a'r ddarpariaeth o sylwadau ar yr ysgogiadau newid. Serch hynny, ceir cyfyngiadau o ran yr hyn y gellir dod i gasgliad yn ei gylch o hyd. Dylid nodi'r wybodaeth fwyaf cyfoethog y gellir ei chaffael ar ysgogiadau newydd ar lefel corff sector cyhoeddus unigol.

Gostyngodd y defnydd o nwy naturiol o 1,464 GWh i 1,382 GWh rhwng 2023 a 2024. Gostyngodd allyriadau cysylltiedig -18 kt$CO_2$e. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl cadarnhau'r prif ysgogiadau sy'n sail i hyn gyda'r data a gasglwyd yn rhan o'r broses adrodd ar sero net. Er enghraifft, a yw'r newidiadau yn ymwneud â buddsoddiad mewn effeithlonrwydd ynni neu ostyngiad i alw (sy'n gysylltiedig â'r tywydd, neu fel arall[1]).

Gostyngodd defnydd o drydan o 710 GWh i 705 GWh rhwng 2023 a 2024. Fodd bynnag, cynyddodd allyriadau cysylltiedig 8 kt$CO_2$e oherwydd dwysedd allyriadau uwch yn gysylltiedig â thrydan. Eto, nid yw'r rhesymau sy'n sail i'r gostyngiad i'r defnydd o drydan yn eglur o'r data a gasglwyd yn rhan o'r broses adrodd ar sero net. Er enghraifft, a yw'r newidiadau yn ymwneud â chynnydd i alw yn gysylltiedig â thrydaneiddio gwres, neu gynnydd i alw yn gysylltiedig â meddiannaeth ychwanegol, adeiladau newydd, offer newydd ac ati.

Mae allyriadau fflyd yn gyfrifol am tua 50% o allyriadau cysylltiedig â thrafnidiaeth. Gostyngodd milltiredd y fflyd o 686 biliwn cilomedr yn 2023 i 680 biliwn cilomedr yn 2024[2]. Mae'r -2 kt$CO_2$e cysylltiedig rhwng 2023 a 2024 o ganlyniad i ddefnydd ychydig yn llai o ddiesel gan geir cronfa a cherbydau nwyddau trwm. Rhywbeth i dynnu sylw ato rhwng 2023 a 2024 yw bod milltiredd cerbydau trydan batri wedi cynyddu 45% ar gyfer faniau a 67% mewn ceir cronfa; wedi dweud hynny, roedd milltiredd cerbydau trydan batri yn ~1% o gyfanswm milltiredd y fflyd yn 2024.

Un o'r ysgogiadau allweddol sy'n sail i'r gostyngiad o -20 kt$CO_2$e i allyriadau gwastraff rhwng 2023 a 2024 yw gostyngiad mawr o wastraff yr adroddwyd iddo gael ei anfon i safleoedd tirlenwi (o 101 cilodunnell yn 2023 i 9 cilodunnell yn 2024); yn ogystal â'r gostyngiad i gyfanswm y gwastraff a gynhyrchwyd.

[1] Nid yw normaleiddio trwy ddadansoddi data graddau o fewn cwmpas ar hyn o bryd.

Amcangyfrif yw'r data cyfanswm milltiredd: lle'r ydym yn derbyn data fflyd mewn litrau o danwydd, rydym yn defnyddio tybiaethau effeithlonrwydd tanwydd ar gyfer gwahanol fathau o gerbydau i ddarganfod y milltiredd.

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol ........ 2
Cynnwys ........ 8
Ffigurau a Thablau ........ 9
Ynglŷn a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ........ 11
Rhestr Termau ........ 12
Llywio'r Adroddiad hwn ........ 13
Cyflwyniad ........ 14
Allyriadau Carbon Sector Cyhoeddus Cymru ........ 16
Atodiadau ........ 30

Confidential

# Ffigurau a Thablau

Ffigur 1 – Cyfanswm allyriadau'r sector cyhoeddus (kt$CO_2$e) fesul math o gategori ar gyfer 2024 ....................................17

Ffigur 2 – Cyfanswm allyriadau'r sector cyhoeddus (kt$CO_2$e) fesul math o sector ar gyfer 2024......................................17

Ffigur 2 – Cyfanswm allyriadau'r sector cyhoeddus (kt$CO_2$e) fesul math o sector ar gyfer 2024......................................18

Ffigur 3 – Cyfanswm allyriadau blynyddol y sector cyhoeddus (kt$CO_2$e) fesul Cwmpas a nifer y sefydliadau adrodd o 2020 i 2024 ..........................................................................................................................................19

Ffigur 4 – Cyfanswm allyriadau'r sector cyhoeddus (kt$CO_2$e) fesul categori (ac eithrio cadwyn gyflenwi), wedi'i droshaenu â nifer y sefydliadau a adroddodd y categorïau hynny rhwng 2020 a 2024 ...................................................................20

Ffigur 5 – Cyfanswm allyriadau cadwyn gyflenwi'r sector cyhoeddus (kt$CO_2$e), wedi'i droshaenu â gwariant cadwyn gyflenwi (£) rhwng 2020 a 2024Ffigur 4 – Cyfanswm allyriadau'r sector cyhoeddus (kt$CO_2$e) fesul categori (ac eithrio cadwyn gyflenwi), wedi'i droshaenu â nifer y sefydliadau a adroddodd y categorïau hynny rhwng 2020 a 2024 .............20

Ffigur 5 – Cyfanswm allyriadau cadwyn gyflenwi'r sector cyhoeddus (kt$CO_2$e), wedi'i droshaenu â gwariant cadwyn gyflenwi (£) rhwng 2020 a 2024 ..............................................................................................................................21

Ffigur 6 – Allyriadau Awdurdodau Lleol (kt$CO_2$e) fesul categori allyriadau rhwng 2020 a 2024 .........................................22

Ffigur 7 – Allyriadau blynyddol GIG Cymru (kt$CO_2$e) fesul categori allyriadau rhwng 2020 a 2024....................................23

Ffigur 8 – Allyriadau blynyddol Cyrff Sector Cyhoeddus Eraill (kt$CO_2$e) fesul categori allyriadau rhwng 2020 a 2024......24

Ffigur 9 – Allyriadau blynyddol Prifysgolion (kt$CO_2$e) fesul categori allyriadau rhwng 2020 a 2024 ...................................25

Ffigur 10 – Allyriadau blynyddol Llywodraeth Cymru (kt$CO_2$e) fesul categori allyriadau rhwng 2020 a 2024.....................26

Dychwelyd i'r tabl cynnwys

Ffigur 11 – Allyriadau Gwasanaethau Tân ac Achub (kt$CO_2$e) fesul categori allyriadau rhwng 2020 a 2024 ....................27

Ffigur 12 – Allyriadau blynyddol Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (kt$CO_2$e) fesul categori allyriadau rhwng 2020 a 2024 ....................28

Ffigur 13 – Cyfanswm yr allyriadau (kt$CO_2$e) ar gyfer Colegau yn 2024 fesul categori allyriadau ....................29

Dychwelyd i'r tabl cynnwys

# Ynglŷn â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru

**Gall Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru helpu i ddatblygu prosiectau effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy, a cherbydau allyriadau isel.**

Mae'r Gwasanaeth Ynni yn cynorthwyo sefydliadau yng Nghymru i ddatblygu prosiectau effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy, a cherbydau allyriadau isel a fydd yn gostwng allyriadau carbon ac yn sicrhau arbedion cost, yn cynhyrchu incwm ac yn arwain at fanteision i'r gymuned ehangach. Nod y Gwasanaeth Ynni yw gwneud i brosiectau lleihau carbon ac ynni ddigwydd yng Nghymru.

Rydym yn cynnig cymorth technegol, masnachol a chaffael trwy dîm o arbenigwyr a phrofiad helaeth o ddatblygu prosiectau ynni a datgarboneiddio yng Nghymru.

Mae'r gwasanaeth ynni yn agored i gyrff sector cyhoedd a mentrau cymunedol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, GIG Cymru, prifysgolion, colegau ac ysgolion, parciau cenedlaethol, gwasanaethau tân ac achub, amgueddfeydd a llyfrgelloedd cenedlaethol, cynghorau celfyddydau a chwaraeon, ysgolion cymunedol a mentrau cymunedol.

Rhwng Gorffennaf 2018 a Mai 2024, fe wnaeth Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru lwyddo i gefnogi buddsoddiad o £210 miliwn mewn prosiectau effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy a fflyd di-allyriadau ledled Cymru. Mae hyn yn cyfateb i amcangyfrif o 857,120 tunnell o $CO_2$e. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru sydd i'w weld yma.

# Rhestr Termau


| Talfyriad | Ystyr |
|---|---|
| GYLlC | Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru |
| GIG | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| GWh | Gigawat-oriau ($10^9$) |
| kt$CO_2$e | Tunelli Carbon Deuocsid a'i Gyfatebol |

Dychwelyd i'r tabl cynnwys

# Llywio'r Adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon i gynnwys allyriadau o sector cyhoeddus cyfan Cymru.

I gynorthwyo llywio o fewn y ddogfen hon, gall y darllenydd ddychwelyd i'r brif dudalen gynnwys trwy glicio 'Dychwelyd i'r tabl cynnydd', sydd i'w weld yng nghornel chwith uchaf pob tudalen. O'r fan honno, gallwch lywio i'r adran berthnasol.



# Cyflwyniad

## Cefndir

Ym mis Mawrth 2021, yn dilyn cyngor gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, fe wnaeth Llywodraeth Cymru osod targed i sicrhau Sero Net erbyn 2050. Hefyd, gosodwyd targedau interim, a sefydlwyd cyfres o gyllidebau carbon bob 5 mlynedd. Gosodwyd y targed interim nesaf fel gostyngiad o 63% i allyriadau erbyn 2030 yn erbyn sylfaen o 1990. I ategu hyn, cadarnhaodd gweinidogion Cymru wedyn uchelgais i'r sector cyhoeddus arwain y ffordd i sicrhau Sero Net erbyn 2030.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y sector cyhoeddus mewn sefyllfa unigryw i annog gostyngiadau i allyriadau y tu hwnt i'w faes dylanwad uniongyrchol. Mae adrodd ar allyriadau carbon yn flynyddol yn hanfodol i gymryd camau gwybodus ar newid hinsawdd a monitro cynnydd tuag at Sero Net.

Mae cyrff cyhoeddus Cymru wedi cwblhau adroddiadau carbon dros y pedair blynedd diwethaf (cylchoedd adrodd). Fodd bynnag, mae nifer y sefydliadau sydd wedi adrodd wedi cynyddu'n sylweddol ers 2020[3].

## Amlinelliad o'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi datganiadau allyriadau carbon 2024 Sector Cyhoeddus Cymru ar y lefel genedlaethol. Mae hyn yn cwmpasu blwyddyn ariannol 2023-24 yn bennaf, er i 13 o 18 o golegau a phrifysgolion gyflwyno data ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-23. Mae'r datganiadau hyn yn seiliedig ar ddata a gyflwynwyd rhwng Ebrill a Hydref 2024. Mae'r holl allbynnau yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd drwy'r broses casglu data safonedig. Darperir tueddiadau o un flwyddyn i'r nesaf yn seiliedig ar gymhariaeth o ddata 2024 gyda'r rowndiau adrodd blaenorol. Pan fo'n bosibl, mae naratif yn gysylltiedig â newidiadau a nodwyd wedi'i gynnwys.

Mae sylwadau ar feysydd eraill i'w gwella wrth adrodd ar gael yn yr atodiad (A1). Ategir y rhain gan grynodeb o'r dulliau prosesu data a ddefnyddiwyd gennym i lunio'r datganiadau carbon (A2).

## Ystyriaethau allweddol

[3] 79 o sefydliadau yn 2024, o'i gymharu â 47 yn 2020

Mae angen parhaus i esblygu dulliau mesur a mireinio dulliau casglu data yn y blynyddoedd adrodd i ddod. Er enghraifft, gwelliannau sydd eu hangen i gywirdeb mesur yn gysylltiedig â nwyddau a gwasanaethau a brynwyd, allyriadau defnydd tir a gwarediadau.

Mae gwahaniaethau o ran ffynonellau allyriadau a nifer gynyddol o gyrff adrodd yn effeithio'r gallu i gymharu rhwng cylchoedd adrodd ar draws bob un o'r bum mlynedd (ar lefel "Cymru gyfan"). Dylid nodi hefyd bod cylchoedd adrodd blaenorol wedi cael eu heffeithio gan bandemig COVID-19, a 2021 yn benodol. Dylid ystyried tueddiadau o un flwyddyn i'r nesaf yn ofalus yn y cyd-destun hwn.

## Allyriadau Cadwyn Gyflenwi

Mae procsis economaidd yn rhoi asesiad cyflym i allyriadau ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi ac yn caniatáu cyrff cyhoeddus i nodi mannau problemus (gan ddefnyddio £/$CO_2$e). Mae'r broses adrodd ar Sero Net yn defnyddio procsis yn seiliedig ar y Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) yn absenoldeb data penodol i gyflenwyr. Adnabyddir y dull hwn o adrodd ar allyriadau cadwyn gyflenwi fel "Haen 1".

Mae'r ffactorau allyriadau a gyflenwir yn y fersiwn ddiweddaraf o'r templed adrodd yn defnyddio cyfres o ffactorau wedi'u diweddaru (yn seiliedig ar ddata 2020, y set ddata fwyaf cyfoes sydd ar gael gan lywodraeth y DU).

±24% oedd y newid cyfartalog ar gyfer unrhyw ffactor dwysedd allyriadau penodol rhwng eleni a'r llynedd. Ar gyfer rhai categorïau penodol (sy'n berthnasol i gyrff cyhoeddus) mae'r newid i ddwysedd allyriadau yn llawer mwy. Er enghraifft, cynnydd o +93% ar gyfer *Gwasanaethau iechyd dynol*.

Bydd modd gwir adnabod ymdrechion i leihau allyriadau cadwyn gyflenwi dim ond trwy ddefnyddio data penodol i gyflenwyr (gan ddisodli'r dil procsi cost). Adnabyddir y dull hwn o adrodd ar allyriadau cadwyn gyflenwi fel Haen 2 neu 3.

Yn 2024, dim ond 1% o allyriadau cadwyn gyflenwi gafodd eu hadrodd trwy ddulliau Haen 2/3 (heb gynnwys ffigurau GIG Cymru). Gan fod allyriadau cadwyn gyflenwi yn gyfrifol am 72% o gyfanswm allyriadau sector cyhoeddus Cymru yn 2024, anogir yn gryf bod mwy o gyrff sector cyhoeddus yn symud oddi wrth brocsis sy'n seiliedig ar gost cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Sylwer: mae ffactorau allyriadau procsi yn cynnwys oedi o 4 mlynedd oherwydd y ffigurau gorau sydd ar gael h.y. mae adroddiadau 2024 yn seiliedig ar ffactorau 2020.

# Allyriadau Carbon Sector Cyhoeddus Cymru

Mae'r dadansoddiad isod yn cynnig trosolwg o'r amcangyfrifon allyriadau carbon cyfunol ar lefel sector cyhoeddus cyfan Cymru. Darperir ffigurau ar gyfer y cyfnod adrodd presennol ochr yn ochr â chymhariaeth o ffigurau mewn cylchoedd adrodd blaenorol.

## Penawdau

Roedd cyfanswm allyriadau carbon sector cyhoeddus Cymru ar gyfer 2024 yn cyfateb i **3,540 kt$CO_2$e**.

Mae'r rhan fwyaf o'r allyriadau yn deillio o weithgareddau o fewn y **gadwyn gyflenwi, sef 2,559 kt$CO_2$e** (72% o gyfanswm yr ôl troed).

Mae **adeiladau a thrafnidiaeth** yn cyfrannu'r meysydd mwyaf nesaf o ôl troed y sector cyhoeddus, sef **541 kt$CO_2$e** a **413 kt$CO_2$e** yn eu trefn.

**Awdurdodau Lleol** sy'n cynrychioli'r gyfran fwyaf o ôl troed y sector cyhoeddus yn ôl math o sefydliad, gan gyfrannu **1,518 kt$CO_2$e,** neu 43%.

**GIG Cymru** a **Chyrff sector cyhoeddus eraill** yw'r mathau o sefydliadau â'r cyfraniadau mwyaf sylweddol nesaf at gyfanswm ôl troed y sector cyhoeddus, sef **1,160 kt$CO_2$e** a **394 kt$CO_2$e** yn eu trefn.

**Mae allyriadau wedi cynyddu 13% rhwng 2024 a 2023**, sy'n cyfateb i 420 kt$CO_2$e. Mae allyriadau hefyd wedi cynyddu 58% rhwng y flwyddyn adrodd gyntaf yn 2020 a 2024. Ysgogir hyn yn bennaf gan gynnydd i nifer y sefydliadau sy'n adrodd. Mae'r allyriadau cyfartalog fesul sefydliad wedi aros yn gyson o'r flwyddyn sylfaenol. Mae'r allyriadau cyfartalog fesul cyflogai llawn amser wedi cynyddu o 9.6 t$CO_2$e yn 2020 i 14.4 t$CO_2$e yn 2024.


Mae nifer y sefydliadau adrodd wedi cynyddu ym mhob rownd. 2024 yw'r brig presennol ar ôl cynnwys y **nifer fwyaf o sefydliadau adrodd hyd yma (79)**.

Sylwer: Sylwer bod y ffigurau a adroddir wedi'u bras amcanu i'r cyfanrif agosaf er hwylustod cyflwyno. O'r herwydd, efallai y bydd mân anghysondebau ar lefelau cyfunol pan fydd cyfanrifau yn cael eu hadio, gan nad yw gwerthoedd degol wedi'u cynnwys.

## Cyfanswm amcangyfrifon ar gyfer 2024

Roedd cyfanswm yr allyriadau o holl Gyrff Sector Cyhoeddus Cymru yn cyfateb i 3,540kt$CO_2$e yn 2024.


Mae'r rhan fwyaf o'r allyriadau yn deillio o weithgareddau yn y gadwyn gyflenwi. Mae'r allyriadau hyn yn gyfrifol am 72% o gyfanswm yr allyriadau. Adeiladau a thrafnidiaeth sy'n cyfrannu'r gyfran fwyaf nesaf o allyriadau (15% a 12% yn eu trefn). Gwastraff a nwyon meddygol gyda'i gilydd sy'n gyfrifol am y gweddill.




*Ffigur 1 – Cyfanswm allyriadau'r sector cyhoeddus (kt$CO_2$e) fesul math o gategori ar gyfer 2024*

Awdurdodau lleol sy'n cyfrannu'r mwyaf o allyriadau at gyfanswm ôl troed y sector cyhoeddus (43%), wedi'u dilyn gan GIG Cymru (33%), a Chyrff Cyhoeddus Eraill Cymru (11%).

Grwpiau eraill (Prifysgolion, Colegau, Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) sy'n cyfrannu'r 13% sy'n weddill.




*Ffigur 2 – Cyfanswm allyriadau'r sector cyhoeddus ($ktCO_2e$) fesul math o sector ar gyfer 2024*


Confidential

## Allyriadau blynyddol

Mae cyfanswm allyriadau'r sector cyhoeddus wedi cynyddu ers y flwyddyn adrodd flaenorol. Bu cynnydd o 13% i gyfanswm yr allyriadau rhwng 2023 a 2024. Ers y flwyddyn adrodd gyntaf, mae allyriadau wedi cynyddu 58%.

Dros y cyfnod hwn, mae nifer y sefydliadau adrodd hefyd wedi cynyddu. Y flwyddyn adrodd ddiweddaraf sydd â'r nifer fwyaf o sefydliadau adrodd (79). Mae hyn yn gynnydd o wyth sefydliad o'i gymharu â 2023 a chynnydd o 32 sefydliad o'i gymharu â 2020. Ysgogir y macro-newidiadau a welwyd yng nghyfanswm ôl troed y sector cyhoeddus gan y newid i sefydliadau adrodd i raddau helaeth.

O'u cyfuno, mae allyriadau'r cyrff adrodd newydd ar gyfer 2024 yn cyfateb i 20 kt$CO_2$e. Mae cyrff adrodd newydd yn 4.8% o gyfanswm y cynnydd o 420kt$CO_2$e i allyriadau a welwyd eleni.





*Ffigur 3 – Cyfanswm allyriadau blynyddol y sector cyhoeddus (kt$CO_2$e) fesul Cwmpas a nifer y sefydliadau adrodd o 2020 i 2024*

Dychwelyd i'r tabl cynnwys

Mae cyfanswm yr allyriadau sector cyhoeddus o adeiladau wedi bod yn gostwng o un flwyddyn i'r nesaf ers 2022. Mae hyn er gwaethaf y cynnydd i sefydliadau adrodd ac yn bennaf oherwydd gostyngiad i ddefnydd o nwy ochr yn ochr â datgarboneiddio'r grid trydan cenedlaethol.

Mae allyriadau trafnidiaeth wedi cynyddu'n flynyddol, a chynnydd i allyriadau teithio busnes a chymudo yw'r rheswm am hyn. Rhwng 2023 a 2024, mae allyriadau teithio busnes wedi cynyddu 6 kt$CO_2$e. Cynyddodd allyriadau cymudol 26 kt$CO_2$e hefyd. Ar y llaw arall, mae allyriadau gweithio gartref wedi gostwng 6 kt$CO_2$e. Mae allyriadau o fflyd wedi lleihau am y tro cyntaf ers dechrau adrodd, o 2 kt$CO_2$e.

Mae allyriadau gwastraff wedi gostwng o un flwyddyn i'r nesaf ers 2022, wedi'i ysgogi gan lefelau is o wastraff a adroddwyd a lefelau is o wastraff i safleoedd tirlenwi a adroddwyd.




*Ffigur 4 – Cyfanswm allyriadau'r sector cyhoeddus (kt$CO_2$e) fesul categori (ac eithrio cadwyn gyflenwi), wedi'i droshaenu â nifer y sefydliadau a adroddodd y categorïau hynny rhwng 2020 a 2024*

Rhoddir sylw i allyriadau cadwyn gyflenwi ar wahân yma oherwydd eu cyfraniad sylweddol at y ffigurau cyffredinol.

Mae allyriadau cadwyn gyflenwi wedi cynyddu 20% rhwng 2023 a 2024, o 2,137 $ktCO_2e$ i 2,559 $ktCO_2e$. Mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol y cynnydd o 13% i wariant cadwyn gyflenwi o £10.5 biliwn i £11.9 biliwn. Mae'r cynnydd hefyd yn rhannol o ganlyniad i'r cynnydd dwysedd allyriadau cyfartalog o 2.6% ar draws pob ffactor (rhwng 2019 a 2020).

Bydd modd gwir adnabod unrhyw ymdrechion i leihau allyriadau cadwyn gyflenwi dim ond trwy ddefnyddio data penodol i gyflenwyr (gan ddisodli'r dull procsi economaidd).




*Ffigur 7 – Cyfanswm allyriadau cadwyn gyflenwi'r sector cyhoeddus ($ktCO_2e$), wedi'i droshaenu â gwariant cadwyn gyflenwi (£) rhwng 2020 a 2024*


Dychwelyd i'r tabl cynnwys

**Allyriadau Awdurdodau Lleol**

Amcangyfrifir mai 1,518 kt$CO_2$e yw cyfanswm ôl troed Awdurdodau Lleol ar gyfer 2024. Adroddodd pob un o'r 22 Awdurdod Lleol ddata yn 2024. Mae nifer y sefydliadau Awdurdod Lleol sy'n adrodd wedi aros yn gyson ers 2020 (22).

Mae cyfanswm allyriadau Awdurdodau Lleol wedi cynyddu 10% ers 2023, cynnydd o 143 kt$CO_2$e. Ers dechrau adrodd yn 2020, mae allyriadau wedi gostwng 7 kt$CO_2$e.

Fodd bynnag, mae allyriadau Adeiladau wedi gostwng 4% rhwng 2023 a 2024 a 18% ers 2020. Mae allyriadau Trafnidiaeth (gan gynnwys gweithio gartref) wedi cynyddu 2% rhwng 2023 a 2024, a 34% ers 2020. Mae allyriadau Gwastraff wedi gostwng 65% rhwng 2023 a 2024, ac 80% ers 2020. Mae allyriadau cadwyn gyflenwi wedi cynyddu 19% rhwng 2023 a 2024, a 4% ers 2020.





*Ffigur 8 – Allyriadau Awdurdodau Lleol (kt$CO_2$e) fesul categori allyriadau rhwng 2020 a 2024*

### Allyriadau GIG Cymru

Amcangyfrifir mai 1,160 kt$CO_2$e yw cyfanswm ôl troed GIG Cymru ar gyfer 2024. Adroddodd pob un o sefydliadau GIG Cymru ddata yn 2024. Mae pob un o 13 o sefydliadau GIG Cymru wedi adrodd ers 2022. Mae allyriadau GIG Cymru wedi cynyddu 7% rhwng 2023 a 2024, cynnydd o 71 kt$CO_2$e. Ers i bob un o'r 13 sefydliad adrodd yn 2022, mae allyriadau wedi cynyddu 26%, cynnydd o 240 kt$CO_2$e.

Mae allyriadau Adeiladau wedi gostwng 4% rhwng 2023 a 2024 a 12% ers 2022. Mae allyriadau Trafnidiaeth (gan gynnwys gweithio gartref) wedi gostwng 3% rhwng 2023 a 2024 a 7% ers 2022. Mae allyriadau Gwastraff wedi cynyddu 10% rhwng 2023 a 2024 ac wedi gostwng ~1% ers 2022. Mae allyriadau Nwyon meddygol wedi cynyddu 54% rhwng 2023 a 2024 (dechreuodd adrodd cywir ar nwyon meddygol yn 2023 yn unig, ac mae problemau cynnar o ran casglu data yn hysbys). Mae allyriadau cadwyn gyflenwi wedi cynyddu 9% rhwng 2023 a 2024 a 41% ers 2022.




*Ffigur 9 – Allyriadau blynyddol GIG Cymru (kt$CO_2$e) fesul categori allyriadau rhwng 2020 a 2024*


Confidential

### Allyriadau Cyrff Sector Cyhoeddus Eraill

Amcangyfrifir mai 394 kt$CO_2$e yw cyfanswm ôl troed Cyrff Sector Cyhoeddus ar gyfer 2024. Adroddodd 18 o Gyrff Sector Cyhoeddus Eraill ddata yn 2024. Mae pob un o'r 18 o Gyrff Sector Cyhoeddus Eraill wedi adrodd ers 2022.

Mae allyriadau Cyrff Sector Cyhoeddus Eraill wedi cynyddu 18% rhwng 2023 a 2024, cynnydd o 61 kt$CO_2$e. Ers i bob un o'r 18 o gyrff sector cyhoeddus eraill adrodd yn 2022, mae allyriadau wedi cynyddu 24%, cynnydd o 78 kt$CO_2$e.

Mae allyriadau Adeiladau wedi gostwng 12% rhwng 2023 a 2024 a 12% ers 2022. Mae allyriadau Trafnidiaeth (gan gynnwys gweithio gartref) wedi cynyddu 10% rhwng 2023 a 2024 a 28% yn gyffredinol ers 2022. Mae allyriadau Gwastraff wedi gostwng 27% rhwng 2023 a 2024 a 55% ers 2022. Mae allyriadau cadwyn gyflenwi wedi cynyddu 25% rhwng 2023 a 2024 a 25% ers 2022.





*Ffigur 10 – Allyriadau blynyddol Cyrff Sector Cyhoeddus Eraill (kt$CO_2$e) fesul categori allyriadau rhwng 2020 a 2024*

### Allyriadau Prifysgolion

Amcangyfrifir mai 266 kt$CO_2$e yw cyfanswm ôl troed Prifysgolion ar gyfer 2024. Adroddodd pob un o'r 8 o brifysgolion ddata yn 2024. Mae'r pob un o'r 8 brifysgol wedi adrodd ers 2022.

Mae allyriadau Prifysgolion wedi cynyddu 34% rhwng 2023 a 2024, cynnydd o 67 kt$CO_2$e. Ers i bob un o'r 8 o brifysgolion adrodd yn 2022, mae allyriadau wedi cynyddu 78%, cynnydd o 116 kt$CO_2$e.

Mae allyriadau Adeiladau wedi aros yn sefydlog rhwng 2023 a 2024 ac wedi gostwng ~1% ers 2022. Mae allyriadau Trafnidiaeth (gan gynnwys gweithio gartref) wedi cynyddu 71% rhwng 2023 a 2024 ac 84% ers 2022. Mae allyriadau Gwastraff wedi cynyddu 4% rhwng 2023 a 2024 a 79% ers 2022. Mae allyriadau cadwyn gyflenwi wedi cynyddu 56% rhwng 2023 a 2024 a bron deirgwaith drosodd ers 2022.




*Ffigur 11 – Allyriadau blynyddol Prifysgolion (kt$CO_2$e) fesul categori allyriadau rhwng 2020 a 2024*


Confidential

## Allyriadau Llywodraeth Cymru

Amcangyfrifir mai 143 kt$CO_2$e yw cyfanswm ôl troed Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024.

Mae allyriadau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu 49% rhwng 2023 a 2024, cynnydd o 47 kt$CO_2$e. Ers 2020, mae allyriadau wedi gostwng 9%, gostyngiad o 13 kt$CO_2$e.

Mae allyriadau Adeiladau wedi cynyddu ~1% rhwng 2023 a 2024 ac wedi gostwng 14% ers 2020. Mae allyriadau Trafnidiaeth (gan gynnwys gweithio gartref) wedi aros yn sefydlog rhwng 2023 a 2024 ac wedi gostwng 40% ers 2020. Mae allyriadau Gwastraff wedi gostwng 91% rhwng 2023 a 2024 a 21% ers 2020. Mae allyriadau cadwyn gyflenwi wedi cynyddu 60% rhwng 2023 a 2024 ond wedi gostwng 5% ers 2020.





*Ffigur 12 – Allyriadau blynyddol Llywodraeth Cymru (kt$CO_2$e) fesul categori allyriadau rhwng 2020 a 2024*

### Allyriadau Gwasanaethau Tân ac Achub

Amcangyfrifir mai 22 kt$CO_2$e yw cyfanswm ôl troed Gwasanaethau Tân ac Achub ar gyfer 2024. Adroddodd pob un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub ddata yn 2024. Mae nifer y Gwasanaethau Tân ac Achub sydd wedi adrodd wedi aros yn gyson ers 2020 (3).

Mae allyriadau Gwasanaethau Tân ac Achub wedi cynyddu 0.6% rhwng 2023 a 2024, cynnydd o 1 kt$CO_2$e. Ers 2020, mae allyriadau wedi cynyddu 97%, cynnydd o 11 kt$CO_2$e.

Mae allyriadau Adeiladau wedi gostwng ~1% rhwng 2023 a 2024 a 10% ers 2020. Mae allyriadau Trafnidiaeth (gan gynnwys gweithio gartref) wedi gostwng 15% rhwng 2023 a 2024 ac wedi cynyddu mwy na theirgwaith drosodd ers 2020. Mae allyriadau Gwastraff wedi gostwng 97% ers 2020 (ni adroddwyd ar allyriadau gwastraff yn 2023). Mae allyriadau cadwyn gyflenwi wedi cynyddu 13% rhwng 2023 a 2024 a mwy na phedair gwaith drosodd ers 2020.





*Ffigur 13 – Allyriadau Gwasanaethau Tân ac Achub (kt$CO_2$e) fesul categori allyriadau rhwng 2020 a 2024*

Dychwelyd i'r tabl cynnwys

## Allyriadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Amcangyfrifir mai 3.6 kt$CO_2$e yw cyfanswm ôl troed Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar gyfer 2024. Adroddodd pob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol ddata yn 2024. Mae nifer yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol sydd wedi adrodd wedi aros yn gyson ers 2020 (3). Mae allyriadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi cynyddu 18% rhwng 2023 a 2024, cynnydd o lai nag 1 kt$CO_2$e fodd bynnag. Ers 2020, mae allyriadau wedi cynyddu 87%, cynnydd o 2 kt$CO_2$e.

Mae allyriadau Adeiladau wedi cynyddu 7% rhwng 2023 a 2024 ac wedi gostwng 23% ers 2020. Mae allyriadau Trafnidiaeth (gan gynnwys gweithio gartref) wedi gostwng ~1% rhwng 2023 a 2024 ac wedi cynyddu 67% ers 2020. Mae allyriadau Gwastraff wedi cynyddu deirgwaith drosodd (239%) rhwng 2023 a 2024 a phedair gwaith drosodd (313%) ers 2022 (dechreuwyd adrodd ar wastraff yn 2022 yn unig). Mae allyriadau cadwyn gyflenwi wedi cynyddu 23% rhwng 2023 a 2024 ac wedi mwy na dyblu (141%) ers 2020.





*Ffigur 14 – Allyriadau blynyddol Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (kt$CO_2$e) fesul categori allyriadau rhwng 2020 a 2024*

Confidential

### Allyriadau Colegau

Mae deg o Golegau wedi adrodd am y tro cyntaf yn 2024. Amcangyfrifir mai 34 kt$CO_2$e yw cyfanswm ôl troed Colegau ar gyfer 2024.

Amcangyfrifir bod y rhan fwyaf o allyriadau Colegau yn deillio o'r Gadwyn Gyflenwi. Mae hyn yn cyfateb i 16 kt$CO_2$e a 48% o gyfanswm yr allyriadau. Amcangyfrifir bod allyriadau yn gysylltiedig ag Adeiladau yn cyfrannu 15 kt$CO_2$e a 43% o'r cyfanswm. Amcangyfrifir bod allyriadau Trafnidiaeth yn cyfrannu 3 kt$CO_2$e a 9% o'r cyfanswm. Amcangyfrifir bod allyriadau Gwastraff yn cyfrannu llai nag 1 kt$CO_2$e a llai nag 1% o'r cyfanswm.




*Ffigur 15 – Cyfanswm yr allyriadau (kt$CO_2$e) ar gyfer Colegau yn 2024 fesul categori allyriadau*

# Atodiadau

## A.1. Meysydd i'w Gwella

### *A.1.1.* Gwelliannau templed

Nodwyd gwahanol feysydd ar gyfer gwella'r templed casglu data. Bydd y rhain yn cael sylw mewn fersiynau o'r ffurflen yn y dyfodol ac maent yn cynnwys y canlynol ar hyn o bryd:

- Galluogi cyrff Sector Cyhoeddus Cymru i fewnbynnu data lefel adeiladau mwy manwl, e.e. arwynebedd llawr. Bydd hyn yn caniatáu dadansoddiad lefel adeiladau mwy dwys, gan arwain at allu nodi meysydd ar gyfer gweithredu.
- Galluogi cyrff Sector Cyhoeddus Cymru i fewnbynnu nifer pob math o gerbyd yn ei fflydoedd. Bydd hyn yn caniatáu dealltwriaeth gymharol o berfformiad ynni a charbon, a lle gallai cerbydau fflyd fod yn gweithredu'n aneffeithlon.
- Diweddaru ffactorau allyriadau cod SIC ar gyfer cyfrifo ôl troed cadwyn gyflenwi. Mae hyn yn adlewyrchu tueddiadau allyriadau'r DU.
- Rhannu data ynni adnewyddadwy yn dri thabl: gwres oddi ar safle, gwres ar safle, ac ynni adnewyddadwy ar safle ac oddi ar safle. Mae hyn yn caniatáu gwell dealltwriaeth o berfformiad ynni adnewyddadwy.

### *A.1.2.* Gwelliannau methodolegol

Mae angen gwelliannau methodolegol ar draws y rhan fwyaf o gategorïau allyriadau. Mae angen y rhain i wella cywirdeb, dibynadwyedd, cyflawnrwydd, a thryloywder y ffigurau a adroddir. Dyma'r meysydd gwella allweddol i ganolbwyntio arnynt:

- Esblygu'r dulliau a ddefnyddir i adrodd ar allyriadau cwmpas 2, gan ganolbwyntio'n benodol ar y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chaffael a datblygu ynni adnewyddadwy.
- Hwyluso'r newid oddi wrth adrodd ar allyriadau cadwyn gyflenwi Haen 1 i ddulliau â chywirdeb uwch, trwy ddatblygu templed casglu data cyflenwyr ar gyfer sefydliadau Sector Cyhoeddus Cymru a'u cyflenwyr mwyaf.
- Gwelliant i gywirdeb dulliau amcangyfrif allyriadau a gwarediadau ar y tir, gan allu categoreiddio a mapio pocedi tir yn well ac felly nodi'n fwy cywir y carbon y maent yn ei atafaelu.
- Cyflwyno dulliau cywirdeb uwch ar gyfer asesu allyriadau gweithio gartref a chymudo.
- Cyflwyno gofynion manylder uwch o ran data ynni adeiladau a thrafnidiaeth i gael lefelau uwch o wybodaeth o gyflwyniadau. *Gallai* hyn gynnwys data lefel mesurydd, data lleoliad, arwynebedd llawr, a nodweddion adeiladau.

## A.2. Adolygu Prosesu Data

Mae gwirio gwallau wedi cael ei ymgorffori yn y ffurflen casglu data erbyn hyn. Byddai gwallau'n cael eu nodi o ran data sydd ar goll lle byddem yn eu disgwyl (e.e. manylion cerbydau fflyd wedi'u darparu ond dim milltiredd), a gwallau'n cael eu nodi lle nad yw cyfrifiadau yn gweithredu fel y disgwyliwyd. Mae cyfanswm y gwallau a nodwyd wedi cael ei gynnwys i wirio anghysondebau rhwng tablau unigol a'r canlyniadau cryno.

Adolygwyd yr holl gyflwyniadau data yn unigol, gan dynnu sylw at wallau, achosion o gyfrif dwbl a bylchau data i'w codi gyda'r sefydliad adrodd priodol. Codwyd rhai materion ar y cam hwn ac maent yn cynnwys gwallau copïo a gludo, cyflwyniadau anghyflawn, neu werthoedd anghywir i'w cyflwyno. Roedd y problemau hyn yn anghyffredin, fodd bynnag, a'r rhan fwyaf o'r data a gyflwynwyd o ansawdd da. Aeth data cyflwyniadau ar gyfer 2024 trwy broses o fapio categorïau gyda data o flynyddoedd adrodd blaenorol. Caniataodd hyn ddatblygiad dadansoddiad data cyfres amser na ddarparwyd yn flaenorol. Caniataodd hyn i wiriad ychwanegol gael ei gynnal i dynnu sylw at ddata gwallus lle'r oedd cyflwyniadau yn amrywio'n sylweddol o un flwyddyn i'r nesaf.

Mae'r sylwadau a'r nodiadau a ddarparwyd gan y cyrff sector cyhoeddus a adroddodd o werth sylweddol iawn. Mae'r sylwadau hyn yn aml yn cynnig atebion i'r gwallau a nodwyd neu gyd-destun i pam y gallai ffynonellau allyriadau penodol

fod ar goll neu'n bresennol. Mae hyn wedi helpu i symleiddio'r broses sicrhau ansawdd ac wedi osgoi'r angen am gwestiynau a sgyrsiau dilynol niferus. Anogir y defnydd o sylwadau a nodiadau yn gryf ar gyfer pob blwyddyn yn y dyfodol.

Casglwyd yr holl ddata a gyflwynwyd o'r flwyddyn adrodd gyntaf hyd at 2024 mewn cronfa ddata ganolog. Fe wnaeth hyn hwyluso datblygiad adroddiadau cyrff cyhoeddus unigol. Mae hyn hefyd yn hwyluso datblygiad dangosfwrdd ar-lein hygyrch ar gyfer Adrodd ar Sero Net y Sector Cyhoeddus.

Gwasanaeth **Ynni**
**Energy** Service

Ariennir Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru gyda'r nod o ddatblygu prosiectau effeithlon o ran ynni ac ynni adnewyddadwy sy'n cyfrannu at ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus a thargedau ynni cenedlaethol. Darperir Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru gan yr Ymddiriedolaeth Garbon, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a Phartneriaid Lleol (y "**Partneriaid Darparu**"). Lluniwyd yr adroddiad hwn (yr "**Adroddiad**") gan y Partneriaid Darparu ac, er bod y safbwyntiau a fynegir ynddo yn cael eu rhoi yn ddidwyll yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ar ddyddiad yr Adroddiad hwn:- (i) nid yw'r safbwyntiau hyn o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru, ac nid yw'n derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw ddatganiad neu farn a fynegir yn yr Adroddiad; (ii) bwriedir i'r Adroddiad ddarparu canllawiau cyffredinol yn unig, yn hytrach na chyngor ariannol, cyfreithiol neu dechnegol at ddibenion unrhyw brosiect penodol neu fater arall, ac ni ddylai neb sy'n derbyn yr Adroddiad ddibynnu arno yn hytrach na chael ei gyngor ei hun gan gynghorydd trydydd parti priodol; a (iii) dylai unrhyw berson sy'n derbyn yr Adroddiad hwn gael ei gyngor ariannol, cyfreithiol, technegol a/neu unrhyw gyngor proffesiynol perthnasol arall ei hun felly os bydd angen cyfarwyddyd penodol ar ba gamau (os o gwbl) i'w cymryd, neu beidio â'u cymryd, o ran unrhyw brosiect, menter, cynnig, cyfranogiad ag unrhyw bartneriaeth neu fater arall y gallai gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad fod yn berthnasol iddo; a (iv) nid yw'r Partneriaid Darparu yn derbyn unrhyw atebolrwydd o ran yr Adroddiad, nac am unrhyw ddatganiad yn yr Adroddiad a/neu unrhyw wall neu hepgoriad yn ymwneud â'r Adroddiad.